Cofnodion Cyfarfod a gynhaliwyd ar 15fed o Ionawr 2026

Presennol oedd Guto Jones, Menai Hughes, Ffuon Williams, Prys Ellis, Einion Edwards, Dyfan Jones (is gadeirydd) a cyngh Gwennol Ellis. Cafwyd ymddiheuriadau gan Llio Morris a Maria Roberts.
Darllenwyd y cofnodion blaenorol ac fe'u harwyddwyd fel rhai cywir.
Datgan diddordeb ir Agenda heno -NEB
Gohebiaeth
[1] Cyngor Sir Conwy - cafwyd ail lythyr yn nodi ein cyfraniad i gefnogi llyfrgell Cymuned yn Uwchaled ar ol ysgrifennu i gwyno bod y swm wedi codi yn aruthrol cytunwyd yn yr llythyr diweddaraf eu bod am gwtogi y swm i £1,489.00 am y flwyddyn sydd i ddod ac yna codi eto i £1,729 yn y flwyddyn wedyn cytunwyd i hynn.
[1.1] Cyngor Bwrdeisdref Sirol Conwy - Precept ar ol trafod y Derbyniadau a Gwariant am y flwyddyn sydd i ddod gan ystyried efallai costau etholiad cytunwyd ein bod yn codi ei precept i £15,000.00.
[1.2] LLywodraeth Cymru – llythyr yn nodi gwariant Cyngor o dan yr adran ddeddf 137 wedi ei nodi.
[1.3] Sedd Wag - y Clerc i holi.
[1.4] Mr I N Ferguson - anfoneb am ddarparu gwasanaeth ir wefan y Cyngor. £76.79 pasiwyd iw dalu.
[1.5] Scottish Power – anfoneb mewn Credit o £7.03.
[1.6] Dwr Cymru - anfoneb £20.64 wedi ei dalu DD.
[1.7] Plus net - anfoneb £22.99 wedi ei dalu DD.
[1.8] Ffioedd Claddu - Y diweddar Beti Williams £150.00. wedi ei dderbyn.
[1.9] Adroddiad y Cyngh Gwennol Ellis, dywedodd ei bod wedi ysgrifennu at yr ERF i ganmol y gwaith greannu yn ystod y tywydd gaeafol, nodi bod cyfarfod cyhoeddus yn digwydd yn y Crown y Llanfihangel nos fawth nesaf gyda cau y bont i wneud gwaith trwsio, treth y Cyngor sydd yn cael ei drafod yn Nghonwy ar hyn o bryd, tai Cymdeithasol os oes rhywun yn debygol o fod angen un yn y dyfodol iw wneud hynny nawr ac hefyd os oes rhywun angen y gwasanaeth Galw Gofal mae hwn ar gael hefyd yn gymraeg ichwi gysylltu ar Cynghorydd.
[2] Cyn Gynhorydd John Jones - y clerc i yrru cerdyn iddo i ddiolch am ei wasanaeth ir Cyngor Cymuned.
[2.1] Greannu - daeth sylw am gyflwr y ffordd tuag at y syrgeri pan fydd tywyll gaeafol gofyn os oes modd greannu a clirio o gwmpas y syrgeri gan ei fod yn gallu bod yn beryglus ir rhai sydd yn ymweld ar syrgeri clerc i gysylltu ar Sir yn nodi hyn.
[2.2] Goleuadau Nadolig ir pentref – nodwyd bod angen prynnu mwy o oleuadau at flwyddyn nesaf cytunwyd bod Dyfan yn nghofal prynnu rhai ar ran y Cyngor Bro.
[2.3] Cyflog y Clerc - trafodwyd cyflog y clerc - cytunwyd bod y cyflog ar pwynt scale 18 yn ol gofynion NALC.
[2.4] Hufenfa De Arfon - mae cais am diffub i Bentrellyncymer wedi ei geisio am – ni fydd dim cost o gynnal a chadw ir Cyngor Bro os bydd yn llwyddiannus.
Dyddiad y cyfarfod nesaf 5ed o Fawrth 2026.